

Tîm Cefnogi Myfyrwyr

Nod

Bwriad y Tîm Cefnogi Myfyrwyr yw galluogi myfyrwyr a'u helpu i gyflawni eu potensial trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi. Bydd y gwasanaethau hyn yn helpu i leddfu pryderon myfyrwyr a'u paratoi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth fel y gallant ganolbwyntio ar eu hastudiaethau a'u bywyd yn y brifysgol. Bydd Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr yn cysylltu â staff academiaidd, gwasanaethau cefnogi eraill y brifysgol ac asiantaethau allanol i sicrhau cyfeirio effeithiol ac i gefnogi dull integredig mewn perthynas â lles myfyrwyr. Mae staff yn y gwasanaethau cefnogi myfyrwyr yn gweithio ar draws y Brifysgol i gyfrannu gwybodaeth at ddatblygu polisïau ac arferion sy'n gysylltiedig â lles myfyrwyr.

Swyddfa Tai Myfyrwyr

Nod

Darparu canolbwynt ar gyfer anghenion/problemau myfyrwyr yn y sector tai preifat, yn rhoi'r gallu iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth gan gymryd y boen allan o chwilio am dŷ.

Amcanion

Trwy ddarparu'r cyfleuster diweddaraf i chwilio am eiddo sydd wedi cofrestru gyda swyddfa tai'r brifysgol.

Annog perthynas gytûn rhwng y tenant a'r landlord a rhoi cyngor am ddulliau priodol o weithredu os bydd y berthynas yn dirywio.

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth tai trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus a rhoi'r wybodaeth honno i fyfyrwyr a landlordiaid

Cymorth ariannol

Nod

Mae'r Uned Cymorth Ariannol yn ceisio galluogi myfyrwyr i ddechrau rheoli eu cyllid cyn iddynt fynd i drafferthion. Mae gan gynghorwyr yr Uned Cymorth Ariannol y wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau i ddysgu a chynorthwyo myfyrwyr a'u hannog i gymryd camau ataliol.

Amcanion

Trwy gymryd rhan yn y rhaglen Meddygon Arian, sydd a'r nod o hyrwyddo gallu ariannol o fewn addysg uwch, mae staff yn ceisio galluogi myfyrwyr i reoli eu cyllid cyn iddynt fynd i drafferthion. Mae gan gynghorwyr yr uned cefnogaeth ariannol y wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau i ddysgu a helpu myfyrwyr ac annog dulliau ataliol o weithredu.

Sicrhau bod myfyrwyr cael y cwbl y maent yn gymwys i'w gael a'u helpu i gyllidebu.

Gweinyddu Cronfa Caledi Ariannol y brifysgol a'i dyrannu'n briodol.

Sicrhau bod myfyrwyr yn cael y fwsariaeth gywir gan y brifysgol (Bangor a'r Fwsariaeth Cyfrwng Cymraeg).

Trwy gysylltu gyda CBM/Cyllid Myfyrwyr ac asiantaethau allanol eraill i helpu i ddatrys unrhyw anawsterau.

Arwain Cyfoedion

Nod

Mae'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cefnogi cyfoedion i gynorthwyo myfyrwyr sy'n newydd i Fangor yn cynnwys: eu hintegreiddio'n gymdeithasol, cynefino, integreiddiad academaidd, rhoi gwybodaeth a'u cyfeirio at wasanaethau cefnogi.

Amcanion

Recriwtio a hyfforddi myfyrwyr sy'n wirfoddolwyr i roi cefnogaeth gan gyfoedion i fyfyrwyr newydd.

Cefnogi rhedeg y cynllun arweinwyr cyfoed fel y caiff ei drefnu yn yr ysgolion academaidd, a chydgysylltu gweithgareddau canolog sy'n cynnwys arweinwyr cyfoed.

Rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth i fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli a'u ffrindiau yn eu rôl yn cefnogi cyfoedion.

Bylchau mewn astudio/tynnu allan

Nod

Mae'r gwasanaeth un i un hwn yn rhoi cyfle i'r holl fyfyrwyr israddedig sy'n ystyried cael bwlch neu dynnu allan o'u hastudiaethau chwilio am ffyrdd o aros ar eu cyrsiau lle bo modd. Lle nad yw'n bosibl iddynt barhau gyda'u cwrs, nod y gwasanaeth yw sicrhau y gallant adael neu gael bwlch yn eu hastudiaethau mewn ffordd mor gadarnhaol ag y bo modd sydd ddim yn fwrn arnynt.

Amcanion

Galluogi myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus trwy roi gwybodaeth glir am y goblygiadau ariannol ac ehangach o adael neu amharu ar eu hastudiaethau.

Cysuro myfyrwyr bod digwyddiadau annisgwyl bywyd a'r effaith y gallant gael ar allu myfyrwyr i ganolbwynt ar eu hastudiaethau yn rhywbeth arferol.

Cynnig gwasanaeth proffesiynol i weithredu bylchau mewn astudiaethau neu dynnu allan o astudiaethau.

Sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o bosibiliadau sydd ar gael iddynt a'r cyfyngiadau.

Trwy gasglu data ystadegol yn wythnosol mae'r tîm yn gallu adnabod unrhyw dueddiadau a rhoi sylw i unrhyw broblemau ar unwaith.